# HUMPHREYS, GEORGE (1747? - 1813), clochydd, bardd

**Enw:** George Humphreys
**Dyddiad geni:** 1747?
**Dyddiad marw:** 1813
**Plentyn:** George Humphreys
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clochydd, bardd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
**Awdur:** Edward Jones

a chyfaill ' Twm o'r Nant.' Dywed ' Harri Myllin ' yn *Cymru (O.M.E.)*, 1893, mai yn Llanrhaeadr Mochnant y ganed ef ac y treuliodd ei oes. Methwyd â darganfod cofnod ei fedyddio yno, ond yno y claddwyd ef, 10 Mehefin 1813, yn 66 oed. Yr oedd gan ' Cynddelw ' feddwl mawr ohono fel bardd, a dywed mai efe a James Jones oedd y beirdd gorau yn Llanrhaeadr. Yn llawysgrif ei fab George Humphreys (N.L.W. 6729) ceir copïau o'i waith yn englynion, carolau plygain, Pasg, a Sulgwyn, cerddi duwiol, a phenillion gofyn ewyllys da John Jones o'r Frongoch i'r cryddion.

## Awdur

**Edward Jones**

## Ffynonellau

*Y Geninen*, Hydref 1884, 310-11

*NLW MS* 6729

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733066

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu